
**Pwyllgor Cynllunio:** 05/02/2025 **12.1**

**Rhif y Cais: FPL/2024/304**

**Ymgeisydd:** Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

**Bwriad:** Cais llawn ar gyfer creu ardal parcio, llwybr troed a llwybr beicio yn

**Lleoliad:** Parc Gwledig Morglawdd, Caergybi




**Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Owain Rowlands)**

**Argymhelliad:** Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor**

Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n berchen ar y safle.

**Y Cynnig a'r Safle**

Mae'r safle dan sylw ym Mharc Gwledig y Morglawdd, sydd wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored i'r gorllewin o Gaergybi.

Mae'r cais yn ymwneud â chreu maes parcio, llwybr troed a llwybr seiclo.

**Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion yw p'un ai a ydi'r cynllun arfaethedig yn dderbyniol, p'un ai a ydi'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau cyfredol, a p'un ai a fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw eiddo cyfagos.

**Polisïau**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Polisi AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
Polisi PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu
Polisi TRA 2: Safonau Parcio
Polisi TRA 4: Rheoli Ardrawiad Cludiant

Canllawiau Cynllunio Atodol: Safonau Parcio (2008)

Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (2024)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)

**Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

| Ymgynhorai | Ymateb |
|---|---|
| Cyngor Tref Caergybi / Holyhead Town Council | Dim ymateb. |
| Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol / Ecological and Environmental Advisor | Mae'r safle ger nifer o safleoedd dynodedig, ond nid yw'r datblygiad yn debygol o effeithio arnynt. Bodlon â chynnwys y datganiad seilwaith gwyrdd a'r gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig. |
| Ymgynghorydd Treftadaeth / Heritage Advisor | Dim sylwadau ynglŷn â'r dreftadaeth adeiledig. |
| Cynghorydd Glyn Haynes | Dim gwrthwynebiad. |
| Cynghorydd Robert Llewelyn Jones | Dim ymateb. |
| Priffyrdd a Trafnidiaeth / Highways and Transportation | Ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol. Wedi gofyn am amod yn gysylltiedig â chael Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu oherwydd bod y ffordd rhwng Traeth Newry a Pharc Gwledig y Morglawdd yn gul. Wedi darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch twmpathau ffyrdd. |

Hysbysebwyd y cynnig drwy anfon llythyrau personol at ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd 20/12/2024. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd yr adran wedi derbyn unrhyw sylwadau.

**Hanes Cynllunio Perthnasol**

Mae hanes o waith cynllunio sylweddol ym Mharc Gwledig y Morglawdd, ond nid  oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno yn gysylltiedig â'r safle dan sylw.

**Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Y prif ystyriaethau cynllunio yw p'un ai a ydi'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau cyfredol, a p'un ai a fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw eiddo cyfagos.

**Y Cynnig a'r Safle**

Y safle dan sylw yw Parc Gwledig y Morglawdd, sydd wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored i'r gorllewin o Gaergybi.

Dyma gais i greu maes parcio, llwybr troed a llwybr seiclo.

Y prif faterion yw:
i. Gosodiad a Dyluniad
ii. Effaith ar Fwynderau Eiddo Preswyl Cyfagos
iii. Ecoleg a Bioamrywiaeth
iv. Priffyrdd a Pharcio

**i. Gosodiad a Dyluniad**

Mae'r llwybr troed a seiclo presennol wedi'i leoli ar hyd y ffordd fynediad ac mae'n gorffen cyn y giât i mewn i Barc Gwledig y Morglawdd. Fel rhan o'r cais bydd y llwybr yn cael ei ymestyn 150m i gyfeiriad y gorllewin, tuag at brif hwb y parc gwledig. Bydd yn mesur 3m o led a bydd yn cael ei orchuddio â graen fel y llwybr presennol. Bydd y gwaith yn cynnwys symud yr arwydd sydd wedi'i leoli ger y fynedfa, creu croesfan i gerddwyr a chael gwared ar lystyfiant. Ynghyd â'r llwybr seiclo a cherdded, mae'r cais yn cynnig creu deuddeg lle parcio newydd ar y llain werdd ar hyd y ffordd fynediad, i'r dwyrain o'r llefydd parcio presennol. Bydd y llefydd parcio'n cynnwys deg lle parcio safonol, un lle parcio i bobl anabl ac un lle parcio ar gyfer rhieni a phlant.

Mae'r cynllun arfaethedig o safon uchel yn unol â pholisi PCYFF 3, a bydd yn ychwanegu at y cyfleusterau ym Mharc Gweledig y Morglawdd er budd defnyddwyr. Bydd y llwybr seiclo a cherdded newydd yn integreiddio â'r llwybrau presennol a bydd yn darparu llwybr teithio llesol i ganol tref Caergybi. Bydd y llefydd parcio ychwanegol wedi'u lleoli wrth ymyl y ffordd fynediad ac ni fyddant yn cael effaith negyddol ar y dirwedd.

**ii. Effaith ar Eiddo Preswyl Cyfagos**

Mae Parc Gwledig y morglawdd wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored i'r gorllewin o Gaergybi. Mae'r cynllun arfaethedig yn golygu gwneud mân waith i'r maes parcio a llwybrau presennol, ac mae'r eiddo preswyl agosaf 200m i ffwrdd o'r safle. Ni fydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw eiddo preswyl cyfagos, ac felly mae'n cydymffurfio â pholisi PCYFF 2.

**iii. Ecoleg a Bioamrywiaeth**

Bydd rhywfaint o lystyfiant yn cael ei dynnu i wneud lle ar gyfer y datblygiad. Er mwyn gwneud iawn am y golled ac i wella'r cynefin ar y safle, bydd dolydd blodau gwyllt yn cael eu rheoli yn y caeau cyfagos. Mae'r ymgynghorydd ecolegol yn fodlon â'r cynnig, a fydd, at ei gilydd, yn sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth, yn unol â pholisi AMG 5 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016). Mae datganiad seilwaith gwyrdd wedi'i gyflwyno yn ogystal sy'n amlinellu'r ystyriaethau ecolegol i sicrhau cydymffurfiaeth â Phennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru.

**iv. Priffyrdd a Pharcio**

Nid oes gan yr adran briffyrdd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad, a chan bod y ffordd o Draeth Newry tuag at Barc Gwledig y Morglawdd yn ffordd ddi-ddosbarth, ychydig iawn o reolaeth sydd gan yr adran dros y datblygiad. Bydd Amod (03) yn mynnu bod Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu yn cael ei

gyflwyno i sicrhau na fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch y briffordd tra bydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, yn unol â pholisi TRA 4. Bydd deuddeg lle parcio newydd ar gael, a bydd pob un yn cydymffurfio â'r mesuriadau sydd wedi eu nodi yn y safonau parcio yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, ac felly maent yn cydymffurfio â pholisi TRA 2.

**Casgliad**

Dyma ddatblygiad ar raddfa fach i wella ac ymestyn y llwybr seiclo a cherdded presennol a darparu mwy o lefydd parcio. Mae'n gynllun o ansawdd uchel ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd naturiol o'i amgylch a bydd yn gwella'r cyfleusterau ym Mharc Gwledig y Morglawdd. Ni fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw eiddo preswyl, bydd yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth ac ni fydd yn effeithio ar ddiogelwch y briffordd, ac felly mae'n cydymffurfio â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol.

**Argymhelliad**

Bod y cais yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau canlynol:

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwana'r caniatad hwn a fo o fewn pum mlynedd I ddyddiad y caniatad hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Cwblheir y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau isod, a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais oni bai eu bod wedi eu cynnwys o fewn unrhyw ddarpariaeth yn amodau'r caniatâd cynllunio hwn.**

- **D1026.101 Rev C - Cynllun lleoliad**
- **202223-YM-DES-018-500-02 Rev D - Gosodiad safle arfaethedig**
- **Datganiad Seilwaith Gwyrdd**

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

**(03) Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â chynllun rheoli traffig cynhwysfawr llawn gan gynnwys:**
i. Parcio cerbydau ar gyfer gweithwyr y safle ac ymwelwyr
**ii. Llwytho a dadlwytho offer a deunyddiau**
**iii. Storio offer a deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu'r datblygiad**
**iv. Cyfleusterau golchi olwynion (os yn briodol)**
**v. Oriau a dyddiau gweithredu a rheoli a gweithredu cerbydau adeiladu a danfon nwyddau.**

**Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.**

Rheswm: Er budd diogelwch priffyrdd.

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisïau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4, TRA 2, TRA 4

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.